Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

# Canllaw
# gan Llenyddiaeth Cymru

# Anfon eich gwaith at gyhoeddwr

Mae golygyddion yn disgwyl gweld teipysgrif wedi ei gyflwyno'n destlus. Dyma rai pwyntiau i'w cadw mewn cof wrth baratoi eich teipysgrif:

**Cyflwyniad**

- Dylid teipio eich llawysgrif, ar un ochr y ddalen yn unig, ar bapur gwyn maint A4.
- Sicrhewch bod y teip yn ddarllenadwy, a maint y ffont yn hwylus i'w ddarllen. Defnyddiwch ffont clasurol.
- Sicrhewch nad oes unrhyw gamgymeriadau sillafu neu wallau gramadegol yn eich teipysgrif.

**Rhyddiaith:**

- Defnyddiwch fylchu llinellau dwbl, gan osod margin o gwmpas y testun.
- Dylid dechrau pennod newydd ar ddalen newydd
- Rhifwch pob tudalen

**Barddoniaeth:**

- Dylid teipio cerddi yn yr arddull byddai'r cerddi yn ymddangos mewn ffurf printiedig, gan ddefnyddio bylchu llinell sengl neu ddwbl yn ôl dymuniad y bardd.
- Rhifwch pob tudalen

**Pwyntiau cyffredinol**

Rhowch deitl i'ch cyfrol. Nodwch teitl y gyfrol, eich enw neu eich llysenw ar ddalen flaen y teipysgrif.

Nodwch eich enw a'ch cyfeiriad ar waelod y ddalen flaen, ar yr ochr dde. Ar gyfer rhyddiaith, fe ellir nodi'r nifer o eiriau yn y teipysgrif.

Ni ddyliech rwyno eich gwaith (dim pinau, clipiau papur na thudalennau wedi eu stwfflo). Peidiwch gosod eich gwaith mewn ffeiliau plastig. Gosodwch eich teipysgrif mewn ffolder dogfen. Nodwch enw'r gyfrol a'ch enw a'ch cyfeiriad ar y ffolder.

Cadwch gopi o'ch gwaith.

Cadwch gofnod o ba waith yr ydych wedi ei anfon at ba gyhoeddwr / cyhoeddiad, a'r dyddiad anfonwyd.

**Beth i'w anfon - Barddoniaeth**

- Os byddwch yn anfon barddoniaeth at gylchgronau, anfonwch ddetholiad o gerddi e.e. 6 cherdd, ynghyd â llythyr cyflwyno a bywgraffiad byr.
- Os byddwch yn anfon casgliad o gerddi at gyhoeddwr, anfonwch ddetholiad o tua 15-20 o gerddi ynghyd â llythyr cyflwyno, gan nodi unrhyw gyhoeddiadau blaenorol, a manylion bywgraffiadol.

**Beth i'w anfon - Rhyddiaith**

- Ffuglen. Nofel – anfonwch grynodeb ynghyd ag un bennod.
- Ffuglen – Casgliad straeon byrion. Anfonwch ddetholiad o straeon, ynghyd â chrynodeb o'r casgliad.
- Ffuglen – Stori fer at gylchgrawn. Anfonwch y stori gyflawn.
- Ffeithiol greadigol - anfonwch grynodeb ynghyd ag un bennod.

**Sut i anfon gwaith at gyhoeddwr**

Gwiriwch a ydy'r cyhoeddwr yn derbyn teipysgrifau printiedig neu deipysgrifau electroneg.

Nodwch union ofynion y cyhoeddwr ar gyfer teipysgrifau digymell.

Ysgrifennwch lythyr cyflwyno at y golygydd perthnasol.

Amgaewch amlen hunan-gyfeiriedig, stampiedig, o'r maint cywir ar gyfer dychwelyd eich teipysgrif.

Anfonwch eich gwaith gorau, o'r radd flaenaf.

**Aros am ymateb**

Byddwch yn barod i aros am rai wythnosau cyn derbyn ymateb. Bydd angen bod yn amyneddgar. Bydd y rhan fwyaf o gyhoeddwyr yn ymateb. Os na chewch ymateb ar ôl dau neu dri mis, anfonwch lythyr ymholiad. Os na chewch ymateb, gofynnwch i'r cyhoeddwr ddychwelyd eich teipysgrif. Anfonwch y teipysgrif at gyhoeddwr arall.

Anfonwch eich gwaith at un cyhoeddwr ar y tro. Peidiwch anfon yr un darn o waith at nifer o gyhoeddwyr ar yr un pryd.

I weld rhestr o gyhoeddwyr yng Nghymru, ewch i wefan Y Fasnach Lyfrau yng Nghymru, a weinyddir gan Gyngor Llyfrau Cymru.

I weld rhestr o gyhoeddwyr y DU, trowch at gyfrol *Writers & Artists Yearbook*, a gyhoeddir yn flynyddol gan Bloomsbury. Ceir gwybodaeth a chyngor ynglŷn â chyhoeddi yn y DU ar wefan Writers & Artists